


papur



priordy



**“Os gofalwn ni am fyd natur,
gwnaiff byd natur ofalu amdanom ni”**

Syr David Attenborough

Dewiswyd gan Nerys Williams - Un o Rieni'r Ysgol Sul

Rhifyn 355

MAI 2022

Gair gan ein Gweinidog

Chwe mis cyntaf Prosiect Priordy'n Arloesi Ar-lein

GWIBIODD chwe mis cyntaf ein rhaglen *Priordy'n Arloesi Ar-lein* heibio. Rydym yn ddiolchgar iawn i Raglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am y nawdd hael. Rydym bellach wedi derbyn yr ail chwe mis o nawdd ond cyn i ni frwr ymlaen, mae'n werth edrych ar yr hyn a gyflawnwyd gennym eisioes.



Rhyddau Oedfa Ddigiol bob dydd Sul

Trwy'r rhaglen hon, agorwyd y ffordd i ni brynu gwasanaeth i olygu'r oedfaon digidol. Rydym wedi pwyso ar arbenigedd Alun Lenny yn y maes hwn. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno fod ansawdd cyflwyniad yr oedfa wedi datblygu'n sylweddol, ac yn ymddangos yn fwy proffesiynol nag erioed. Mae'r gwaith yn cynnwys: canfod/creu fideos, lluniau safonol a cherddoriaeth, (rhydd o hawlfraint) ar gyfer y prosiect; golygu fideo 30 munud trwy osod deunydd a dderbyniwyd gan y gweinidog mewn trefn; ychwanegu fideos, lluniau, cerddoriaeth a geiriau emynau. Rydym wedi llwyddo i fuddsoddi'n fisol mewn rhaglenni sy'n caniatáu i ni brynu delweddau a ffilmiau ar gyfer yr oedfaon.

Ein targed gwylio yw 400 y Sul. Da yw medru adrodd bod ffigyrau gwylio ein hoedfaon digidol yn ystod chwe mis cyntaf ein rhaglen arloesi wedi amrywio o 450 i 2,745 o wylwyr. Darlledwyd 29 oedfa dros y chwe mis cyntaf. Cyfanswm gwylwyr: 20,539 sy'n gyfartaledd o 708 yr oedfa.

Paratowyd cardiau i hysbysebu bod modd gwylio'r oedfa ddigidol ar ein sianel Youtube ac fe'u dosbarthwyd ymhlith aelwydydd yr ardal a chartrefi gofal ynghyd â gosod cyflenwad parhaol yn y siop a'r garej leol. Troslgwyddwyd rhai i Gaplan Ysbyty Glangwili er mwyn eu dosbarthu fel y gwêl yn dda i'r cleifion ar y wardiau. Mae dau gartref gofal yn dangos yr oedfa ddigiol ar y sgrîn fawr yn eu lolfâ er mwyn i'r deiliaid ymuno mewn oedfa Gymraeg. Mae'r ymateb i hyn yn bositif iawn gyda deiliaid mewn unedau dementia yn ymateb i agweddau ar yr oedfa. Mae ein sianel Youtube bellach yn gartref i ymhell dros 100 o oedfaon Cymraeg amrywiol sydd ar gael i unrhyw un ar unrhyw bryd.

Ymddangosodd erthygl yn gwahodd rhai i ymuno â'n hoedfaon digidiol yn *Yr Enfys (Cylchgrawn Cymdeithas Cymru a'r Byd)* a *Ninnau (Papur Cymry Gogledd America)*. Rydym wedi gwneud llawer iawn o gysylltiadau newydd yn lleol a byd-eang.

Cysylltwyd â chymdeithasau Cymraeg ledled y byd ac mae'r oedfa yn cael ei hanfon i'r cymdeithasau hynny'n wythnosol, yn ogystal â denu gwylwyr o Gymru, Lloegr ac Iweddnon. Mae'r ymateb i'r oedfaon wedi bod yn bositif iawn gyda negeseuon cyson o werthfawrogiad yn cael eu gadael ar dudalennau Facebook Capel Y Priordy (<https://www.facebook.com/Capel-Y-Priordy-Caerfyrddin-151813101515122>)

Diolch i bawb ohonoch sydd wedi cymryd rhan yn yr oedfaon digidol amrywiol. Mae dolen yr oedfa ddigidol yn cael ei hanfon allan dros ebost at bron i 150 o aelodau, ffrindiau, eglwysi a chymdeithasau bob nos Sadwrn, gyda nifer ohonoch yn eu hanfon ymlaen at eraill. Caiff ei rhyddhau hefyd ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Pe gwyddoch am unrhyw un arall a fyddai'n hoffi derbyn y ddolen i'r oedfa ddigidol, rhowch wybod i mi.



Radio Glangwili

Wedi iddi gael ei golygu, mae'r oedfa ddigidol yn cael ei throsglwyddo bob penwythnos i ffeil sain a'i llwytho i system Radio Ysbyty Gymunedol Glangwili a'i rhyddhau dros ei thonfeddi bob bore Sul. Diolch i Sulwyn am weld i hyn.

Podlediadau

Daeth cyfle gwych a newydd i'n rhan i gydweithio â Menter Iaith Gorllewin Sir Gaerfyrddin sydd wedi bod yn ddigon caredig i gynnal sesiwn hyfforddiant Podlediadau gyda rhai o'n pobl ifanc (a'r gweinidog!). Mae'r oedfa ddigidol, wedi iddi gael ei golygu, yn cael ei throsglwyddo bob wythnos i ffeil sain a'i hanfon at y Fenter sydd yn ei llwytho i Bodlediad Y Priordy a'i rhyddhau ar nifer o brif blatfformau'r byd digidol fel ei bod ar gael i bawb i wrando arni unrhyw bryd.



Capeli'r
Priordy, Cana a Bancyfelin

Mae'r podlediadau bellach yn fyw ar y platfformau digidol canlynol:

Spotify: <https://open.spotify.com/show/6NM0ieGztlimmraEMzw9xC>
Apple Podcasts: <https://podcasts.apple.com/us/podcast/oedfaoedd-beti-wyn/id1612830856?uo=4>
Spreaker: <https://www.spreaker.com/show/oedfa-gan-beti-wyn-1>
iHeartRadio: <https://iheart.com/podcast/93688407>
Deezer: <https://www.deezer.com/show/3472067>

Am funud...

Rydym wedi cychwyn cyfres ddigidol newydd ddwywaith y mis o'r enw '*Am funud...*' – sef ffilm fer yn adrodd darn o'r Beibl neu weddi am un funud yn unig. Mae'r ffilmiau yn cael eu golygu'n broffesiynol drwy arian y Rhaglen Datblygu ac rydym yn falch o fedru ariannu myfyriwr (Iestyn O'Leary) sy'n astudio ar gyfer gradd mewn darlledu digidol ym Mhrifysgol Salford, Manceinion i ofalu am y gyfres '*Am funud...*'. Mae'r ymateb i'r ffilmiau byrion hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Calendr Adfent Digidol

Paratowyd a rhyddhawyd neges ddigidol bob dydd yn ystod mis Rhagfyr fel rhan o brosiect Calendr Adfent Digidol yr eglwys. Bu aelodau – o bob oed – yn unigolion a theuluoedd yn ffilmio eu cyfraniadau eu hunain, neu trefnwyd i'w ffilmio os nad oeddent y gallu gwneud eu hunain, a golygwyd y cyfraniadau i gyd a'u rhyddhau fesul diwrnod o 1 Rhagfyr tan ddydd Nadolig. Cafwyd derbyniad mawr i'r calendr a da oedd clywed bod ambell ysgol yn agor drws calendr adfent digidol yr eglwys ar fwrdd gwyn eu dosbarthiadau bob bore. Dyma brosiect y byddwn yn sicr yn adeiladu arno ar gyfer y dyfodol. Diolch i leuan Wyn ac Angharad am drefnu hyn ar ein cyfer.

Myfyrdodau'r Grawys

Paratowyd cyfres o Ddarlleniadau Digidol yn ystod Wythnos Y Pasg eleni, gyda'n haelodau yn ein harwain fesul diwrnod drwy'r Wythnos Fawr hyd at Sul y Pasg.

Offer a rhaglenni

Er mwyn bwrw ati gyda'r gwaith digidol, buddsoddwyd mewn gliniadur newydd, camera digidol, ynghyd â thalu am drwydded darlledu digidol a phecyn zoom llawn. Mae'n dda gennym adrodd bod yr offer a'r rhaglenni hyn yn cael eu defnyddio'n gyson gennym ac yn allweddol i ddatblygiad a llwyddiant ein rhaglen. Hefyd, buddsoddwyd mewn cof allanol mawr er mwyn storio'r holl emynau digidol a gynhyrchwyd gennym. Mae'r cof hwn yn ddigon mawr i storio gwerth pum mlynedd o

emynau. Fe fydd hyn yn sicrhau ein bod yn gadael gwaddol o gasgliad o emynau digidiol wedi i'r Rhaglen Arloesi a Buddsoddi ddod i ben.

Gweledigaeth y 6 mis nesaf

Wrth edrych ymlaen at y chwe mis nesaf ein bwriad gyda'r taliad nesaf o arian y Cynllun Arloesi a Buddsoddi yw parhau i gynnal a datblygu'r hyn yr ydym eisioes wedi ei greu dros y 6 mis diwethaf.

Yn ychwanegol at hyn:

- a) Cyfres ddigidol newydd o'r enw '*Mewn Munud*' a fydd yn rhoi hanes cymeriadau o'r Beibl mewn un funud
- b) Estyn allan at Gymdeithas y Dysgwyr i weld a fedrwn gydweithio ar raglen ddigidol
- c) Cyflogi ffotograffydd lleol i dynnu lluniau drôn o lefydd lleol ar themâu penodol ar gyfer yr oedfaon digidol.

Diolch i'r Undeb, a diolch i Dduw am y cyfle euraidd hwn sydd wedi caniatáu i ni ddatblygu gweinidogaeth yr eglwys yn sylweddol, a hynny mewn modd ffres a chyffrous. Edrychwn ymlaen at ei ddatblygu ymhellach.

Gweddiwn

Dduw Sanctaidd, diolchwn i ti am ddyfeisiadau newydd a chyffrous ac am y cyfleodd a ddaw i'w defnyddio er lles dy Deyrnas Di.



Diolch i ti am lwyfannau digidol newydd ac am roi'r doniau a'r sgiliau i'th bobl i ddatblygu'r offerynnau cyfathrebu hyn.

Diolch am y fraint o gael mynediad i gyfrifiaduron, ffonau, tabledi a'r rhyngwrdd.

Diolch am bopeth newydd yn y byd digidol a ddysgwyd gennym y ystod y cyfnod clo, ac am gyfle arbennig drwy Raglen Arloesi a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i ddatblygu'n cenhadaeth ddigidol.

Rho inni'r egni, y cyffro, a'r dewrder i barhau i fentro, i arloesi a datblygu. A boed i'r cwbl a wnawn fod yn gymeradwy yn dy olwg Di ac yn fendith i ni.

Yn enw Iesu Grist

Amen

MIS MAI	DARLLENIAD
WYTHNOS 1	Salm 121
WYTHNOS 2	Salm 100
WYTHNOS 3	Salm 133
WYTHNOS 4	Salm 93

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

ALISON a FFION PARSONS
DIENW
IRENE WILLIAMS
Tir Ysgawen

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

CYFARFODYDD BLYNYDDOL YR OFALAETH



CANA
 Nos Fercher, 11 Mai 2022 am 7
Y Parchedig Gareth Ioan
Paned i ddilyn



BANCYFELIN
 Nos Iau, 19 Mai 2022 am 7
Y Parchedig Guto Llywelyn
Paned i ddilyn

Croeso cynnes i bawb

I GOPA BRYN MYRDDIN



Y PASG YN YR OFALAETH

**I GOPA BRYN
MYRDDIN
Dydd Gwener y
Groglith
15 Ebrill 2022**



Wedi'r oedfa bregethu yn y Tabernacl gyda'r Parchedig Rob Nicholls, Llundain, daeth hi'n amser i ni ddechrau ar ein pererindod i gopa Bryn Myrddin gan gario'r Groes - a hynny am y tro cyntaf ers tair blynedd.

Pererindod Y Groglith
i Gopa Bryn Myrddin



Llwyddodd y daith eleni i ddenu'r nifer uchaf erioed o deuluoedd ar draws yr enwadau yn ein tref a'n bro.

Ar ôl gair o weddi ym maes parcio Canolfan Bryn Myrddin yn Abergwili dyma fentro arni – pawb wedi dilyn y cyfarwyddyd i wisgo'n synhwyrol ac

ambell un ohonom yn dwyn ffon!

Wedi cyrraedd y copa a gosod y groes bren yno, diolch i ymdrechion y crytiau ifanc Jac ac Rhys, Rhun,



Meilyr a Gwion, cynhaliwyd gwasanaeth byr i gofio am farwolaeth Iesu ar Fryn Calfaria am dri o'r gloch dan ofal y Parchedig Beti-Wyn gyda'r

Parchedigion Ainsley Griffiths, Emyr Gwyn Evans a Tom Defis yn ei chynorthwyo. Cydganwyd dau emyn – *Yng nghroes Crist y gorfoleddwn* (sef efelychiad George Rees o emyn John Bowring)

ac i ddiweddu *Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb* gan Titus Lews (dau o'r tri phennill) , gweinidog y Porth Tywyll a ddaeth yn eglwys y Tabernacl yn ddiweddarach, ar y dôn *Bryn Myrddin* gan J Morgan Nicholas. Cyfansoddwyd y dôn yn arbennig ar gyfer yr emyn hwn gyda



golwg ar bwysleisio'r gair 'mawr' ar ddechrau pob llinell. A na, nid y Bryn Myrddin hwn a roddodd enw i'r dôn ond mans Capel Gobaith, Cwmdâr, cartref chwaer, y cyfansoddwr. A rhoddwn ninnau ddiolch am fawredd Duw yn Iesu'n dod â goleuni a gobaith newydd i ddynol ryw drwy'r Groes a'r Atgyfodiad adeg y Pasg.

Gadawyd y Groes i sefyll ar ben y Bryn Myrddin cyn dychwelyd i'r Ganolfan lle roedd ffrindiau eraill wedi ymuno â ni i fwynhau paned a theisen.

Diolchodd Sulwyn Thomas yn gynnes iawn i Lyn Jones am saernïo'r Groes a sicrhau fod popeth yn ei le ar gyfer y daith, i'r bechgyn am gludo'r Groes, i'r rhai a gymerodd ran, i Gareth a Sharon a'r merched am y lluniaeth, ac yn arbennig i'r Parchedig Beti-Wyn am drefnu'r cyfan. Mynegodd hefyd mor braf oedd gweld aelodau o wahanol eglwysi'r dref a'r cylch ar draws yr enwadau wedi ymuno ar gyfer y daith arbennig hon. Prynhawn hyfryd a bendithiol!



CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY

Nos Fercher 13 Gorffennaf 2022 am 7
yn y capel

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhwch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

Y PASG YN YR OFALAETH

BORE SUL Y PASG

HYFRYD oedd gweld Teuluoedd yr Ofalaeth a ffrindiau eraill yn cydaddoli'n fyw yn ein Hoedfa Gymun ar fore'r Trydydd Dydd yn y Priordy.



Llwyddodd ein Gweinidog i gipio dychymyg a sylw'r plant a'r oedolion, fel ei gilydd, yn ei neges. Roedd hi wedi 'plannu' wyau Pasg – chwech ohonynt i gyd o wahanol liw – ymhlith y gynulleidfa gan annog pob oedolyn neu blentyn a dderbyniodd un i'w agor er mwyn



canfod beth oedd ynddo. Roedd symbol arbennig ym mhob un ohonynt ac eithrio'r olaf a oedd yn gwbl wag! Seiliodd ei neges ar gynnwys y wyau gan olrhain hanes Iesu o'r Groes hyd at y Bedd Gwag a'r Atgyfodiad - y digwyddiad hynod hwnnw a droes ein tywyllwch yn oleuni gan roi i bob un ohonom fywyd a gobaith newydd. Fe'n harweiniwyd wedyn gan ein Gweinidog at Fwrdd y Cymun a mynegodd ein cydymdeimlad â thri theulu yn y Priordy sydd wedi colli anwyliaid a fu

mor drwm i'r eglwys dros y blynyddoedd, sef John Gibby, Mari Jenkins a Wyn Tegryn Evans..

Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan Non James (Cana), Eirian Thomas (Bancyfelin) a Gareth Jones (Y Priordy). Y casglyddion oedd Greta a Mali. Y cyhoeddwr oedd Jayne Woods ac roedd Meinir Lloyd wrth yr organ. Cafodd ein Gweinidog ei chynorthwyo i weini'r Cymun gan Elinor Wyn Reynolds a Jayne Woods (Y Priordy), Edward Jones (Cana) a Lyn Jones (Bancyfelin).

WRTH i ni adael y capel derbyniodd pob un ohonom wy bach siocled blasus iawn gan ein Gweinidog a hynny eto'n gymorth i'n hatgoffa o arwyddocâd a phwysigrwydd y diwrnod mawr hwn.

PRYNHAWN SUL Y PASG

DAETH nifer da ynghyd unwaith eto eleni ger mynedfa'r Wenallt ym Mancyfelin ar gyfer ein taith gedded flynyddol drwy'r pentref ar y trydydd dydd yn cario'r Groes. Arhoswyd hwnt ac yma ar y daith i ganu emyn perthnasol i'r ŵyl arbennig hon.

Dechreuodd ein hoedfa yn y capel gyda gweddi dros Wcráin a phob man arall yn y byd ble mae terfysg ar hyn o bryd. Byddai pobl Wcráin, dan amgylchiadau arferol, yn dathlu'r Pasg gan ddilyn eu traddodiadau arbennig. Clywsom am rai o'r traddodiadau hyn, gan gynnwys gweld ar fidio sut mae'r trigolion yn paratoi ac addurno'r **pysanka**, yr wyau Pasg trawiadol



sydd ganddynt. Clywsom hefyd am un o chwedlau Wcráin sy'n sôn am Iesu yn torri i mewn i fywyd gwraig neilltuol. A does wybod pryd y bydd Iesu'n torri i mewn i ganol ein byw a hynny'n annisgwyl, fel y gwnaeth adeg y Pasg, gan gynnig i ni dangnefedd mewnol, heddwch allanol a gobaith.

Cymerwyd rhan yn ystod y daith gan Gwawr Waters, Veronica Evans a Gwyneth Stephens (Bancyfelin) a chariwyd y Groes gan Rhys Lewis Thomas (Bancyfelin). Roedd yr oedfa yn y capel yng ngofal ein Gweinidog. Y cyhoeddwr oedd Joanne Richards ac roedd Gwyneth Griffiths wrth yr organ.



I GLOI prynhawn hyfryd, cawsom fwynhau paned a byns y Grog â'n gilydd. Talwyd y diolchiadau gan Sulwyn Thomas a gyfeiriodd yn arbennig at y gwragedd a fu'n paratoi'r lluniaeth, y tywyswyr ar y daith a Beti-Wyn am ei gweithgarwch mawr a hithau ar fin dechrau ar ei hugeinfed flwyddyn yn weinidog arnom.

Y DAITH YM MANCYFELIN





Gweddi dros bawb sydd wedi aros yn Wcráin

Arglwydd Dduw,

clyw ein cri dros bobl Wcráin,

dros y rhai sydd wedi aros yn eu mamwlad,

y rhai sy'n cysgodi mewn llochesau tanddaearol

rhag y bomiau a'r bwledi.

Na ad iddynt deimlo'n amddifad,

oherwydd yr wyt ti gyda phawb o'th blant ym mhob cyfyngder.

Boed iddynt deimlo dy bresenoldeb cariadol yn lleddfu eu hofnau,

ac yn eu gwroli i wynebu pob awr

gan wybod bod cyfiawnder a'r gwir ar eu hochr hwy,

trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Amen.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

15-21 Mai 2022



Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal yn flynyddol ar draws y Deyrnas Unedig, gan elusen Cymorth Cristnogol i godi arian.

Mae Cymorth Cristnogol yn elusen sy'n gweithio gyda 700 o sefydliadau lleol o fewn 50 o wledydd yn y byd. Maent yn helpu cymunedau tlawd i ddelio gyda'u bywydau caled, newid yn yr hinsawdd a bygythiadau posib am drychinebau naturiol. Law yn llaw â hyn, mae Cymorth Cristnogol yn rhoi cymorth gydag addysg, glanweithdra, iechyd a chymodi rhwng cymunedau penodol.

Dechreuodd Cymorth Cristnogol ym 1957, gyda'r bwriad o annog ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac arweiniodd hyn i'r elusen fabwysiadu'r enw Cymorth Cristnogol ym 1964. Y bwriad yn y 60au oedd gwneud pobl yn ymwybodol o fygythiad o ddiffyg bwyd a'r posibilrwydd o newyn.

Eleni mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar gyflwr sychder sy'n wynebu nifer o wledydd ar draws y byd.

Oherwydd sefyllfa pandemig y coronafeirws ar hyn o bryd, bydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yn ddigwyddiad rhithiol. Mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i wirfoddolwyr geisio cynnal digwyddiadau codi arian amrywiol.

Yn ogystal â'r gweithgareddau codi arian bydd yr amlenni casglu arian coch yn cael eu dosbarthu er mwyn annog pobl i gyfrannu

**Am ragor o wybodaeth
Y Parchedig Tom Defis
tdefis@cymorth-cristnogol.org**



Urddas, Cydraddoldeb, Cyfiawnder, Cariad

Pererindod yr Ofalaeth i Soar Y Mynydd



Dydd Sul, 19 Mehefin 2022

Bws yn gadael sgwâr Bancyfelin am 9.45

Cana am 9.50

Heol Awst am 10.05

Heol Y Prior am 10.15

Paned yn Llanymddyfri


Seibiant yn Llyn Brianne

**Oedfa yn Soar y Mynydd am 2
dan ofal Beti-Wyn**

**Cinio Dydd Sul yn y New Cross Inn, Dryslwyn am 5
Pris am y dydd: £20 yn cynnwys swper**

**Enwau i Beti Wyn neu ar y daflen yn y cyntedd.
Gofynnir am flaendal o £5 oddi wrth bawb
os gwelwch yn dda**

DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS



Neges Heddwch ac Ewyllys Da Canmlwyddiant yr Urdd Yr Argyfwng Hinsawdd

18 Mai 2022



Bob blwyddyn, er 1922, mae pobl Ifanc Cymru wedi creu neges o heddwch a chyfeillgarwch i'w rhannu â phobl Ifanc dros y byd.



Mae neges Heddwch ac Ewyllys Da canmlwyddiant yr Urdd yn ffocysu ar yr argyfwng hinsawdd. Mae'n alwad-i-weithredu gan blant a phobl ifanc Cymru i bobl ifanc y byd ddefnyddio pwysigrwydd a phŵer eu llais i erfyn ar lywodraethau a chorfforaethau mawr i weithredu

ar frys er mwyn achub ein planed. Mae'n amser deffro!

Mae'r Urdd wedi sefydlu partneriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth a chriw o'i myfyrwyr er mwyn creu neges y canmlwyddiant, sydd yn cynrychioli llais plant a phobl ifanc Cymru. Wrth ffocysu ar y thema argyfwng hinsawdd, mae'r bobl ifanc yn defnyddio eu llais er mwyn creu neges bwerus sydd yn pwysleisio'r angen i weithredu cyn iddi fod yn rhy hwyr.

Er mwyn dyfnhau pwysigrwydd rhyngwladol y neges, ffurfiwyd partneriaeth ffurfiol rhwng myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a chriw o fyfyrwyr o'r University of Life Sciences yn Norwy. Cafwyd gweithdy rhithiol gyda myfyrwyr o'r ddwy brifysgol er mwyn trafod y pwnc a rhannu syniadau a diwylliannau gwahanol.



YR ARGYFWNG HINSAWDD

**Mae'r cloc yn ticio
Ac mae'n byd ni ar dân,
Mae'n amser deffro.**

**Llifogydd, tanau, newyn a thlodi,
dyma ein realiti ni.**

**Mudo, gwrthdaro, dadleoli,
ai dyma ein dyfodol ni?**

**Pam ein bod ni'n dal i wrando
ar bla bla bla'r rhai mewn pŵer?**

**Pam ein bod ni'n dal i gredu
y gallwn brynu ein ffordd allan?**

**Mae'n amser deffro
Mae'n amser addo i newid.**

**Fedrwn ni ddim cario 'mlaen fel hyn.
Mae gennym ni'r fraint i arafu,
i leihau ein defnydd,
i feddwl,
i stopio'r cynnydd.**

**Achos nid ni fydd yn dioddef yn gyntaf.
Felly, dyma ein haddewid
i newid ein ffordd o fyw
a galw am newid systemig
er mwyn y rheiny yng ngwledydd y De Byd-eang,
Er mwyn dyfodol ein cartref.**

**Dechreuwn wrth ein traed
gan wneud y pethau bychain.
A rhown bwysau ar gwmnïau a gwleidyddion
i wneud y pethau mawr.**

**Dyma'n haddewid ni.
Beth yw dy addewid di?
Mae'n amser deffro.**

GAIR O WERTHFAWROGIAD

Mae'n diolch yn fawr iawn i Elinor Wyn Reynolds am arwain ein hoedfa ar Sul y Blodau yn y Priorddy ac am gyflwyno'r myfyrdod yn ogystal yn y gwasanaeth digidol. Gwerthfawrogwyd yn fawr ei neges arbennig am ddigwyddiadau'r Wythnos Fawr mewn dillad cyfoes - yr hanesyn mwyaf a ddywedwyd erioed ac sy'n parhau hyd byth.

BLODAU HAUL WCRÁIN

Diolch yn fawr iawn i Carys Angharad Jones a'i mam Louise Jones, Llanllwni am greu'r bathodynau blodau haul hyfryd hyn yn arbennig i ni, a hynny'n rhad ac am ddim. Mae pob ceiniog o elw yn mynd at



Apêl Wcráin. Gwerthwyd 130 o flodau haul hyd yma yn ein Gofalaeth. Felly, dyna £260 yn ychwanegol at y £2,000 rydym eisioes wedi'i gyfrannu i'r Apêl. Gwych iawn a diolch i bawb



YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



YN DYMUNO CYFAMODI?

DENNIS JONES
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI

Croeso i chi gysylltu ag e!


PLANNU HADAU'R BLODAU HAUL



Ifanc@Priordy

Blodau Haul

Diolch i'r rhai sydd wedi anfon
lluniau ataf. Oes yna flodau
haul eraill yn tyfu tybed?




Chwilotair Llythyren A

I	B	N	A	I	A	I	L	A	A	D	S	A	L
N	H	E	T	A	B	M	E	O	C	A	H	R	O
L	E	B	A	A	E	A	O	U	T	G	B	G	T
D	D	I	A	R	R	D	I	S	A	A	W	L	S
R	D	R	N	O	E	A	B	L	U	B	E	W	O
Y	O	H	L	N	A	Y	R	E	W	Y	A	Y	P
N	R	H	M	A	N	I	W	A	D	B	D	D	A
A	N	T	I	L	O	D	D	A	B	D	N	D	A
W	A	F	L	H	C	O	I	T	N	A	O	Y	B
E	F	N	O	I	D	D	Y	W	R	A	D	I	R
T	A	A	A	D	D	A	A	N	A	O	A	A	A
R	Y	W	N	I	E	W	R	A	I	M	U	N	H
A	A	D	R	H	C	E	L	E	M	I	B	A	A
I	T	R	A	A	N	D	R	E	A	S	U	E	M

ANTIOCH
ACTAU
AMOS
ABRAHAM
AARON
AIIFF
ADDA
ARARAT
ARWYDDION
ARWEINWYR
ADDOLI
ABIMELECH
ADNODAU
ANA
APOSTOL
ANDREAS
ABEL
ARGLWYDD



**Help! Rwy'n sownd yn y capel!
Fedrwch chi fy helpu i i ddod o hyd i'r drws?!**



Adnod i'w chofio... ‘

Edrych! Dw i yma! Dw i'n sefyll wrth y drws ac yn curo. Os bydd rhywun yn fy nghlywed i'n galw ac yn dod i agor y drws, dof i mewn i rannu pryd o fwyd gyda nhw.’ *Datguddiad 3:20 beibl.net*

Hwyl am y tro. Beti Wyn

YN Y CAPEL A'R YSGOL SUL

SUL Y PALMWYDD




Rheswm Nerys Williams dros ddewis y dyfyniad canlynol gan Syr David Attenborough:

***“Os gofalwn ni am fyf natur,
gwnaiff byd natur ofalu amdanom ni”***

***“If we look after the natural world the
natural world will look after us”***

Wedi ymddiddori mewn byd natur, bywyd gwyllt a'r byd naturiol erioed, mae anturiaethau'r naturiaethwr, y darlledwr a'r awdur byd enwog, Sir David Attenborough, o hyd wedi bod o ddiddordeb mawr i mi ers yn ferch fach wrth i mi ddilyn a gwylio ei gyfresi teledu anhygoel dros y blynyddoedd ac yna ddarllen nifer o'i lyfrau ffeithiol a gwybodus am ein byd naturiol rhyfeddol ac arbennig sydd hefyd wedi datblygu fy hoffter o'r byd gwyddonol a daearyddol.



Dw i wedi bod yn ffodus iawn i allu dilyn fy niddordeb fy hun hefyd yn y byd naturiol trwy weithio a theithio ychydig i ymweld â bywyd gwyllt trwy ddilyn gorilas yn Uganda, teigrod yn India, orangutans yng ngwlad Borneo a chael y cyfle arbennig o fod yn rhan o waith cadwraeth gwirfoddol yn Ne Affrica ar warchodfa natur yng nghanol llewod, eliffantod, jiraffod ag ati ac hefyd gyda bywyd gwyllt morol hynod y wlad gyda dolffiniaid, morloi a morfilod. Gobeithiaf yn fawr y gallaf fynd â fy mhlant ar nifer o deithiau tebyg yn y dyfodol.

Dilyna is fy niddordeb hefyd gan dreulio blwyddyn o fy ngradd Sŵleg yn astudio ymddygiad ac arferiadau gorilas a chathod mawr yn Sŵ Paignton ymysg anifeiliaid eraill ac yna weithio ym myd y cyfryngau a darlledu ar raglenni bywyd gwyllt. Dyma sut ces i'r cyfle bythgofiadwy a lwcus tu hwnt o gwrdd â Sir David Attenborough ei hun yng ngŵyl ffilm Wildscreen ym Mryste.

Mae gan y dyn arbennig hwn negeseuon syml ond pwysig iawn i bob un ohonom a dyma sut mae e'n cyfleu ei wybodaeth amrywiol ac eang

yn ei waith darlledu yn fy marn i. Daw sawl dyfyniad effeithiol ac ysbrydoledig wrth y dyn hoffus hwn am ei angerdd tuag at y byd naturiol dros y degawdau ac mae'r dyfyniad uchod ganddo yn un sydd wedi aros yn y cof gyda mi gan fod gwirionedd ei eiriau mor amlwg erioed ond hefyd yn fwy byth erbyn heddiw wrth i ni ystyried realiti testunau megis cynhesu byd eang, difforesteiddio a'r ffaith bod cynefinoedd naturiol a hanfodol yn diflannu.



MAE gan bob un ohonom ddyletswydd i ofalu am ein hamgylchfyd.

CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN **Cwrdd Chwarter Dydd Iau, 12 Mai 2022**

Capel Nebo, Llanpumsaint

Y GYNHADLEDD AM 4

CYFARFOD YR HWYR AM 7
Anerchiad gan ein Siaradwr Gwadd
Dr Richard Lewis
Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys
ar y testun
Dyfodol Plismona yng Nghymru



AR GYFER Y DYDDIADUR

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Cyfarfod Blynyddol Caerfyrddin
7-9 Gorffennaf 2022

M



Pa mor dda ydych chi'n nabod eich emynau? Mae ail linell deg emyn isod. Tybed beth yw'r llinell gyntaf? Mae'n Fis Mai a chan hynny mae pob llinell gyntaf yn dechrau gyda'r llythyren M Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!



1	yn datgan mawredd Duw	M
2	Y r Arglwydd am ei waith	M
3	wrth feddwl am dy waith	M
4	fy Arglwydd Dduw	M
5	mawr yn gwisgo natur dyn	M
6	Un seren sy'n y nef	M
7	yn fwy na choncwerwyr, drwy gariad mab Duw	M
8	ar dorri'n wawr hyderus	M
9	fel yr wyf	M
10	am bob celfyddyd gain	M

Atebion ar Dudalen 29



NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

Nos Wener y Grogolith

Fel arfer rhai o ieuencid yr egwys fydd yn gyfrifol am yr oedfa. Llwyddwyd eleni i'w chynnal ar ôl seibiant o ddwy flynedd oherwydd y pandemig. 'Yr oeddem ninnau yno' oedd thema'r oedfa gan roi sylw i Fair Magdalen, Pedr a'r Canwriad. Cafodd y pedwar person ifanc a arweiniodd yr oedfa eu derbyn yn gyflawn aelodau o Eglwys Crist yn oedfa bore Sul y Pasg.



Llun: *Alis Glyn, Dafydd Gwydion, William Owain a Gruffydd Owain*

Gorymdaith Gwener y Grogolith

Y Pandemig fu'n gyfrifol am beidio â chynnal y daith hon ers dwy flynedd ond eleni dyma ailgydio. Criw bach fu'n gorymdeithio ond roedd Simon o Gyrene yno gyda'i frawd! Oeddech chi'n gwybod yn y



Priordy fod gan Simon frawd? Deian Iorwerth (9 oed) a'i frawd Owain Iago (5 oed) oeddent - dau o ffyddloniaid capel Salem.

**YR ESGOB THOMAS BURGESS
ESGOB TYDDEWI 1803-25**



Ym mlwyddyn coffa 200 mlynedd sefydlu seiliau Prifysgol y Drindod Dewi Sant (Llambod yn 1822 a Choleg De Cymru a Mynwy 1848) addas yw dyfalu cyfraniad Esgob Tyddewi Thomas Burgess, yn enwedig am ei fod o gefndir estron o Sais o Oldham, lle y'i ganwyd yn 1756 yn fab ieuengaf y teulu. Ymfalchiodd yng Nghymru a'r Gymraeg ac anogodd gymaint o ddatblygiadau gwerthfawr i addysg a diwylliant Cymru, ei wlad fabwysiedig.

Yn y Llyfrgell Genedlaethol gwelir llun - portread trawiadol, ohono fel Esgob Tyddewi, gŵr o alluoedd arbennig a diddordebau eang mewn



cyfnod o ddatblygiadau arloesol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a chrefyddol yn Ewrop a'r byd ehangach. Er nad oedd uwchlaw rhagfarnau ei oes rhwng Trindodwyr ac Undodwyr (a gafodd sêl bendith yn Neddf Goddefgarwch 1689) eto rhoddodd loches a mynediad i'w lyfrgell hynod ym Mhalas yr Esgob yn Abergwili i lolo Morganwg dros gyfnod Eisteddfod Caerfyrddin 1819 a sefydlu Cylch yr Orsedd.

Magwyd yn nheulu o groseriaid. Yn gynnar iawn, dangosodd allu mawr yn ysgol breifat Robert May

yn Oldham ac wedyn yng Ngholeg Caerwynt a Corpus Cristi Rhydychen gan raddio yn BA ac MA a'i benodi'n Gymrawd yn 1783 a'i ordeinio'n Ddiakon ac Offeiriad yn yr Eglwys Wladol yn 1784.

Ond cyn graddio datblygodd ddawn greadigol fel awdur ac athro ac

fel Caplan i Esgob Caersallog cyhoeddodd '*The Salisbury Spelling Book*' i hybu dysgu darllen ac ysgrifennu – a ddaeth yn boblogaidd iawn mewn ysgolion Sul ar hyd a lled Lloegr. Diddorol dyfalu faint, os o gwbl, ddaeth e i wybod am ymdrechion clodwiw Stephen Hughes a Griffith Jones, Llanddowror, drwy'r Gymraeg yn ei esgobaeth a'u gwerthfawrogi - ymdrechion a dynnodd sylw Catherine Fawr o Rwsia. Neu, efallai, fel yr awgrymir gan yr Athro Geraint H Jenkins, y gwrandawodd ar 'garfan Gymreig' y tu mewn i'r Eglwys fel Gwallter Mechain (Minafon). Ifor Ceri (Maldwyn), W J Rees (Maesyfed) a David Rowlands (Llanddewi Brefi) a enillodd Esgob Burgess at y syniad o sefydlu '*Cambrian Society*' a hybodd eisteddfodwyr ar draws Cymru?

Yn ŵr amlochrog, meddai ar alluoedd arbennig. Yn groes iawn i'r rhelyw o'i gyfoedion, cyhoeddodd '*Consideration on the Abolition of Slavery*' 1788. Fel cynorthwy-ydd i Esgob Durham yn y 1790au bu'n efengylu ymhlith y difreintiedig a'r tlawd. Dangosodd frwdfrydedd i hybu datblygiadau amaethyddol a sefydlu Cymdeithas Amaethyddol Oldham a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, gan ei ddyrchafu'n Aelod o'r Gymdeithas Frenhinol yn 1807. Fel awdur llenyddol, clasurol a chrefyddol, penodwyd yn Llywydd cyntaf y Gymdeithas Frenhinol Lenyddol. Cyflwynodd tua 9,000 o lyfrau i'r Brifysgol yn Llambled.

FEL Esgob Tyddewi am 20 mlynedd, torrodd draddodiad hir o ddiffyg gweithredu yn yr Eglwys yng Nghymru ac annog yn frwd ymgeiswyr a siaradai'r Gymraeg i'r Offeiriadaeth, gan wrthod cysegru rhai heb y Gymraeg i blwyfi Cymraeg eu hiaith.



Esgob

Burgess hefyd sefydlodd Goleg Dewi Sant yn Llambled yn 1822 gan dderbyn y myfyrwyr cyntaf ar Wyl Dewi 1827 ac sydd yn awr yn Gampws Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Sefydlodd hefyd yr SPCK yn ei Esgobaeth, rhoi hwb fawr i ddiwylliant Cymraeg a diwygio'r Eglwys yng Nghymru mewn adeg o dwf sylweddol mewn Anghydfurfiaeth a seciwlariaeth gyda'r

chwyldro diwydiannol. Dilynwyd gan Esgob Thirwall a ddysgodd Gymraeg mewn blwyddyn ac a welodd ddatblygiad y 'South Wales and Monmouthshire Training College' 1848 er mwyn hyfforddi gwŷr Ifanc i ddysgu yn yr ysgolion cynradd eglwysig ac yn awr yn rhan o Brifysgol y Drindod Dewi Sant (gweler Dr Russell Grigg - History of Trinity College, Carmarthen, 1848-1998: 150 Years of Teacher Training in Wales). Tybed a ellir honni felly y gwiredwyd breuddwyd Griffith Jones Llanddowror (gweler gyfeiriad at ei 'old College' ar Fap y Degwm, Llanddowror)?

	CWIS YR EMYNAU ATEBION	
1	Mae'r nefoedd wen uwchben	4
2	Molianned uchelderau'r nef	67
3	Moliannwn di, O Arglwydd	88
4	Mae d'eisiau di bob awr	221
5	Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb	323
6	Mae'r nos yn ddu, a gwynt nid oes	486
7	Mae'r lesu'n fuddugol, a'i bobol gaiff fyw	564
8	Mae'r nos fu'n llethu d'Eglwys flin	605
9	Myfi'r pechadur penna'	768
10	Mawrygwn di, O Dduw	822

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)



PANED A SGWRS

Bore Mercher, 18 Mai 2022 – 10.30

Gwesty'r Llwyn Iorwg

Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr
(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan)



EMYN NOVALIS AC EFELYCHIAID ELFED

MAE'N cenedl wedi'i bendithio â chasgliad helaeth o emynau a'r rheiny nid yn unig yn rhai gwreiddiol ond hefyd yn drosiadau ac efelychiadau.

Mae gennym draddodiad gwych o gyfieithu emynau o ieithoedd eraill. Mae'n syndod, mewn gwirionedd, faint o'r rhain sydd gennym. Yn 2003, dan olygyddiaeth Brynley F Roberts, cyhoeddodd Cymdeithas Emynau Cymru lyfryn clawr papur yn dwyn y teitl *Mynegeion i gyfieithiadau Cymraeg o emynau Lladin, Groeg, Almaeneg ac Eidaleg*. Emynau Saesneg yw prif ffynhonnell ein cyfieithiadau, serch hynny. Enghreifftiau yw emynau Charles Wesley sydd, o'u trosi, wedi cyfoethogi'n haddoli, yn enwedig ymysg y Wesleaid Cymraeg.



Mae nifer o'r cyfieithiadau a'r efelychiadau sydd gennym yn ffefrynnau i lawer ohonom. Cyfieithiad oedd y trydydd emyn mwyaf poblogaidd ar restr fer Emyrn i Gymru 2021, wrth i *Dechrau Canu Dechrau Canmol* ddathlu troi yn 60, sef *Mi glywaf dyner lais* gan John Roberts (Ieuan Gwyllt) (1822-77). Mae'n gyfieithiad o waith, yr Americanwr Lewis Hartsough (1828-1919). emynydd a cherddor dawnus a chyfansoddwr yr emyn-dôn, *Gwahoddiad* yn ogystal. Daeth gwaith Ieuan Gwyllt mor boblogaidd

nes i bobl gredu mai emyn gwreiddiol Cymraeg oedd. *Mi glywaf dyner lais!*

Yn *Y Gân Newydd* (Y Cylchgrawn Efengylaidd - 2017) mae Dafydd Job yn esbonio fel mae cyfieithu emyn yn grefft. Nid hawdd yw sicrhau fod y cyfieithiad yn cyd-fynd â'r dôn ac mae cyfieithu mewn ffordd farddonol yn golygu mwy na throsi geiriau. Ar ben hynny, wrth gwrs, rhaid sicrhau fod y cynnwys diwinyddol yn y cyfieithiad Mae'n ychwanegu: *Bu i ambell emyn golli ei ystyr bron yn llwyr o gael ei drosi!!*

Ym mis Ionawr 2021 lanswyd ymgyrch blwyddyn o hyd er mwyn arddangos y berthynas rhwng Cymru a'r Almaen. Gwelir crynodeb o'r hanes ar flog Llywodraeth Cymru. Yng Nghapel y Boro, Llundain, ar




Ddydd Sul 9 Mai 2021 cynhaliwyd gwasanaeth Cymru a'r Almaen pan roddwyd sylw i ddylanwad y Mudiad Rhamantaidd Almaenig ar Gymru, Ymhlith y cewri Rhamantaidd a gafodd sylw roedd Goethe a Novalis a'u dylanwad ar bobl tebyg i Gwenallt, Elfed a T Gwynn Jones.

A gadewch i ni aros gyda **Novalis**, gan iddo gael ei eni ddau gant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn, ar **2 Mai 1772** yn Ober-Wiederstädt ger Eisleben yn yr Almaen. Georg Philipp Friedrich von Hardenberg oedd ei enw bedydd a mabwysiadodd y ffugenw Novalis o un o ystadau'r teulu. Derbyniodd addysg brifysgol a bu'n gweithio fel gweinyddwr mewn gweithfeydd halen yn Artern. Roedd yn awdur ac athronydd ac yn ffigur dylanwadol iawn yn y mudiad Rhamantaidd cynnar yn yr Almaen. Mae'n debyg fod ei emynau yn deillio o'i brofiad o golli



ei ddyweddi, Sophie von Kuhn, a fu farw'n ifanc ym 1797, Ei marwolaeth gynamserol hi a symbylodd un o'i weithiau mwyaf enwog, sef 'Emynau i'r nos'. Bu farw 25 Mawrth 1801.

Yn yr adran *Yr Arglwydd Iesu yn Caneuon Ffydd* mae efelychiad gan **Elfed** o un o emynau Novalis, *Wenn ich Ihn nur habe*, sef *Os caf yr Iesu'n rhan* (Rhif 361). Mae'r efelychiad yn derbyn canmoliaeth Brinley F Roberts yn ei erthygl *Emynau Ewrop yn Gymraeg* (*Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru* 1992).



Cofir am Elfed fel emynydd yn anad dim. Cyfansoddodd emynau at bob achlysur Cynhwysir 44 o'i emynau, saith ohonynt yn gyfieithiadau neu'n efelychiadau, yn *Caneuon Ffydd*. Yr unig awdur sydd â mwy o'i emynau wedi'u cynnwys yn y gyfrol, sef union ddwbl eiddo Elfed, yw William Williams, Pantycelyn.

Mae'n debygol iawn i Elfed ddefnyddio testun gwreiddiol Novalis yn yr Almaeneg wrth lunio'r efelychiad. Dilynodd gwrs dewisol mewn

Almaeneg pan oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg Caerfyrddin, a dywed ef ei hun, '*Onibae am hyn ni buaswn wedi troi Wilhelm Tell Schiller i'r Gymraeg; na chwaith wedi cyfieithu emynau o'r Almaeneg i'r Saesneg ac i'r Gymraeg*' (Emlyn G. Jenkins, *Cofiant Elfed*, 1957). Cyfateb yn ysbrydol yn hytrach nag yn llythrennol mae'r testunau Almaeneg a Chymraeg yr emyn hwn. Cymryd yr egin syniad yn emyn Novalis a wnaeth Elfed a'i gyfleu ond ar yr un pryd mae wedi mentro o'r gwreiddiol.

DIOLCH am emyn Novalis ac efelychiad Elfed ac yn bennaf oll am yr hedd sy'n gallu dod i ran pob un ohonom drwy ddilyn Iesu: Dyma gyfle wrth gloi i chi fwynhau a gwerthfawrogi efelychiad Elfed yn llawn:


Os caf yr Iesu'n rhan o dan bob croes, a rhodio yn ei hedd hyd ddiwedd oes, anghofiaf boenau'r daith, pob gwaith fydd yn fwynhad; caf brofi'r hedd sydd fry yn nhŷ fy Nhad.	Ond cael yr Iesu'n rhan Daw'r cyfan im; pob bendith ynddo gaf, ni chollaf ddim: ni raid im fynd ar ôl mwynhad daearol fyd, cans yn ei gariad ef mae nef o hyd.
Lle bynnag caf fi ef fy nghartref yw; a deuaf drwy ei ras i ddinas Duw: fy mrodyr yn yr ŵyl a fydd ei annwyl rai; byth, byth ni welir un o'r teulu'n llai.	

Diolch i'r Athro E Wyn James a'r Athro Mererid Hopwood am eu cyngor wrth lunio'r sylwadau hyn - ond yr awdur sy'n gyfrifol am unrhyw ddiffygion.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Jayne Woods, Alison Parsons,
Angharad Wyn a rhieni'r Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn.





Ewyllysiau Cymraeg.
Gerald Morgan
Y Lolfa Mawrth 2022 - £9.99


Cyn y 1990au doedd neb yn deall bod dros fil o ddogfennau cyfreithiol Cymraeg wedi'u harchifp yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r dogfennau profeb yma'n cynnwys ewyllysiau, rhestri eiddo, llythyrau a dogfennau eraill sy'n dangos defnydd effeithiol ac amrywiol o'r iaith. Drwy ddarllen Ewyllysiau Cymraeg cawn wrando ar ddymuniadau a geiriau olaf Cymry o 1560 hyd 1858.

Mae Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr y Sherman yn falch o gyhoeddi y bydd TYLWYTH yn dychwelyd i'r llwyfan yr Hydref hwn.

Bydd Tylwyth gan y dramodydd gwobrwyol Daf James yn agor yn Theatr y Sherman cyn teithio theatrau ledled Cymru.



Ffwrnes Llanelli 5-7 Hydref 2022 - 7.30
Tocynnau: ☎0345 2263510



Y DIARHEBION
Casgliad o Ddiarhebbion
Cyfoes Cymraeg
D Geraint Lewis
Y Lolfa Mawrth 2022 - £9.99

Cyfrol sy'n drysorfa o gyfoeth yr iaith
Gymraeg fydd o ddefnydd i siaradwyr
Cymraeg rhugl a Dysgwyr

CADWCH YN DDIOGEL



Y DIWEDDAR JOHN GIBBY

Gyda thristwch y clywsom y newyddion am golli'r diweddar John Gibby, gynt o Lanllwch, a fu farw ar 16 Mawrth 2022 yng Nghartref Gofal Castell Tywi.



Cofwn am John fel gŵr bonheddig ac urddasol. Nid oedd angen gofyn ble roedd gwreiddiau John gan fod acen Sir Benfro yn amlwg ar ei leferydd. Fe'i magwyd ar fferm Dolfelfed yn edrych i lawr ar gwm hyfryd Rhydwylym ac aelwyd ysbrydol y teulu oedd Capel Llandeilo. Yno gosodwyd y sylfeini ar gyfer ei fywyd.

Bu'n gweithio i J Bibby gan symud i Gaerfyrddin gyda'i waith a dod atom i'r Priordy. Bu ef a Muriel yn hynod o ffyddlon yn Y Priordy. Cyfrannodd yn helaeth i fywyd yr eglwys yn ei ffordd dawel a diymhongar. Bu'n drysorydd Papur Priordy am flynyddoedd lawer, a hefyd yn aelod gwerthfawr o Barti Meibion y Priordy gyda'i lais bas melfedaidd. Roedd canu yn bwysig iawn i John erioed, ac roedd yn Llywydd Anrhydeddus Côr Meibion Caerfyrddin, ac yn aelod ffyddlon ers degawdau.

Cyfoethogwyd ei fywyd â nifer o brofiadau, ond ei deulu oedd kannwyll ei lygad. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Muriel sy'n derbyn gofal ardderchog yng Nghartref Castell Tywi. Hefyd y plant Susan a Roland, Judith a Dylan, ynghyd â Nia a Steffan.

Roedd angladd John yn gwbl breifat yn ôl ei ddymuniad. Cynhaliwyd oedfa i'r teulu agos ar 31 Mawrth 2022 yng Nghapel Gorffwys Login yng nghwmni Muriel, ac oedfa i'r teulu ehangach yn Amlosgfa Parc Gwyn a ffrydiwyd yn fyw i Awstralia er mwyn i Nia, sy'n teithio'r wlad honno, gael ymuno. Gwasanaethwyd gan ein Gweinidog.

Diolchwn i Dduw am John. Bonheddwr wrth natur a Christion trwy ras.

Ein Gweinidog

Y DDIWEDDAR MARI JENKINS

Siom o'r mwyaf oedd clywed am golli Mari. Bu farw ar 25 Mawrth 2022 yn ei chartref yn Nhref Ioan a hithau ond yn 58 oed. Ni fu'r tair blynedd diwethaf yn hawdd iddi o gwbl, ond bu'n wrol. Roedd Mari ar y naill law yn gymeriad byrlymus a llawn bywyd, ond hefyd yn breifat ei ffordd. O ganlyniad, nid pawb oedd yn llwyr ymwybodol o'i hanhwylder, a daeth y newyddion am ei cholli'n sioc i nifer.



Un o blant Caerfyrddin a'r Priordy oedd Mari. I bawb sy'n cofio'i rheini, y diweddard annwyl John a Nansi Jenkins, gwyddom fod Mari, ynghyd â Siân ei chwaer wedi ei magu i werthfawrogi pethau gorau bywyd a'i magu yn 'y pethe'. Treuiodd Mari ei gyrfa ym myd plant, gan symud o fod yn gynorthwy-ydd dosbarth i fod yn athrawes yn Ysgolion Henllan Amgoed, Llanboidy, Bancyfelin a Meidrim. Roedd yn uchel ei pharch gan ei chydweithwyr a'r plant yn dwlu arni. Gallwn dystio i hyn yn Y Priordy hefyd, gan fod Mari wedi gwasanaethu fel athrawes Ysgol Sul poblogaidd iawn. Rhoddai o'i gorau i'r plant bob amser gan baratoi gwersi'n drylwyr iddynt.

Bu hefyd yn Swyddog Eco yr eglwys ac yn rhan allweddol o dîm Agor Y Llyfr sy'n ymweld ag Ysgol Y Dderwen i adrodd stori Beiblaidd unwaith y mis. Roedd Mari yn ferch greadigol iawn ac yn gallu troi ei llaw at bopeth o wnïo i gwiltio, o serameg i arddio.

Afraid dweud y gwelwn ei heisiau yn fawr yn yr eglwys. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Siân ei chwaer a fu mor ofalus o Mari gan roi heibio'i gwaith am gyfnod i ofalu amdani. Diolchwn i Gerald hefyd am ei gefnogaeth i Siân a Mari ynghyd â'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd.


Cynhaliwyd oedfa fer yn Amlosgfa Parc Gwyn ar 8 Ebrill 2022 a'i dilyn gan oedfa yn Y Priordy i ddiolch am ei bywyd. Roedd y gynulleidfa fawr a ddaeth ynghyd yn arwydd sicr o'r parch a fu iddi. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog.

Nos da Mari annwyl. Diolch i Dduw amdanoch.

Ein Gweinidog

Y DIWEDDAR WYN 'TEGRYN' EVANS

Gyda siom y clywsom am golli un o ddiaconiaid ffyddlon yr eglwys, Wyn Tegryn. Bu farw ar 4 Ebrill 2022 yn Ysbyty Glangwili. Roedd Wyn yn annwyl iawn yn ein golwg ni i gyd, ac rydym mor ddiolchgar ei fod ef a Heather wedi symud i Gaerfyrddin ac atom ni yn Y Priordy 11 mlynedd yn ôl.



Roedd gwreiddiau Wyn yn ddwfn yn nhir a daear Sir Benfro, a'i acen yn cyfoethogi'i sgwrs. Nid cyfrinach yw na fu bywyd yn hawdd i Wyn dros gyfnod o ddegawdau gan iddo ymladd alcoholiaeth. Ond daeth drwyddi. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb gymorth a chefnogaeth Heather, ac nid oedd neb yn fwy ymwybodol a gwerthfawrogol o hynny na Wyn ei hun.

Gwawriodd pennod newydd yn eu hanes gyda'r symudiad i Gaerfyrddin. Bu Capel Y Priordy yn ffodus iawn o gael eu cwmni a'u gwasanaeth - Heather gyda'i doniau cerddorodol medrus iawn, a Wyn â'i ddoniau amrywiol yntau. Ymroddodd Wyn yn llawn i gymdeithas yr eglwys hon, a dyna'r Wyn rydym ni'n ei gofio yma yng Nghaerfyrddin. Roedd yn abl iawn gyda'i ddwylo a bu'n Gadeirydd Is-bwyllgor yr Adeiladau gan dreulio oriau yn y capel yn gweld i jobsys amrywiol.

Etholwyd ef gan yr aelodau yn ddiacôn a chawsom waith ei argyhoeddi i dderbyn y swydd gan ei fod yn ymwybodol o'i orffennol. Ond fe'i etholwyd nid am yr hyn a fu ond am yr hyn yr oedd a'r hyn yr oedd ganddo eto i'w gynnig. Dim ond parch ac edmygedd roedd gan bawb tuag ato. Daeth o dywyllwch ei ofid mawr i oleuni cariad Crist, ond camodd nôl i'r tywyllwch i helpu eraill ddarganfod y goleuni hefyd - rhai a oedd yn ddibynol ar alcohol. Cyfrannodd yn hael i fywyd yr eglwys mewn sawl ffordd, ac nid anghofiwn fyth ei lais bas hyfryd yn ychwanegu at ganiadaeth y cysegr, a Wyn ei hun dan deimlad, o bryd i'w gilydd, wrth ganu. Roedd canu'n bwysig iddo, ac roedd yn aelod ffyddlon o Gôr Meibion De Cymru a Chôr Meibion Caerfyrddin.

Golygfa gofiadwy ar ddydd ei angladd ar 12 Ebrill 2022 oedd gweld y ddau Gôr Meibion yn sefyll ar y galeri yn arwydd o deyrnged iddo. Profiad cofiadwy pellach oedd bod yn dyst i'r canu godidog. Cynhaliwyd oedfa breifat yn gynt yn y dydd ym Mharc Gwyn. Gwasanaethwyd gan ei weinidog gyda chymorth Y Parchgn. Dorian Samson, Irfon Roberts, Huw George, ac roedd Y Parchgn Wyn Maskel, Guto Llywelyn, Peter Thomas a Pryderi Llwyd Jones hefyd yn bresennol.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Heather a diolchwn iddi am fod yno i Wyn drwy law a hindda, hyd y diwedd. Meddyliwn hefyd am Gareth ei frawd, a Marian ei efaill, a'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd. Da, was da a ffyddlon.

Ein Gweinidog



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Mai		Mehefin	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Elis Jones		Gareth Gravell	



BLODAU



Mai	1		Mehefin	5	Margaret Lewis
	8	June Thomas		12	
	15			19	Pererindod
	22	Gladwen Meredith		26	Eira Phillips
	29				



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Mai	1	Bore	Eirlys Davies a Margaret Lloyd Evans
Mehefin	5	Bore	Betsan James a Rachel Davies



DARLLENWYR



Mai	1	Ffion Parsons	Mehefin	5	Delyth Gwawr Davies
	8	Y Plant		12	Y Plant
	15	Tim Hayes		19	Pererindod
	22	PIP		26	Alison Parsons
	29	Luned Voyle			



CYHOEDDWYR



Mai	Adrian Evans	Mehefin	Catrin Heledd Jones
-----	--------------	---------	---------------------

Y TYST

50c y rhifyn! Cysyllter â Sulwyn Thomas






DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Bu Huw Michael yn cael ei holi ar **Radio Cymru** am y rhesymau dros y codiadau yn uchafbris trydan a nwy a'r rhesymau am hynny a beth y gellir ei wneud i gwtogi ar ddefnydd o nwy a thrydan. Hefyd bu'n trafod y rhagolygon am gynnydd pellach erbyn Hydref nesaf.



Bu Beti-Wyn ar raglen **Geraint Lloyd** ar **Radio Cymru** yn sôn am ei swydd newydd yn Arwyddfardd yr Orsedd. Bu hefyd ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn sôn am draddodiadau'r Pasg.

Ar **Troi'r Tir** ar **Radio Cymru** bu Tîm Buddugol Sir Gâr yn Adran Ganol Cystadeuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg Ffermwyr Ifainc Cymru yn adolygu'r Wasg. Roedd Heledd Mai Jones yn un o'r aelodau a fu wrthi.



Ein llongyfarchiadau i Ysgol Farddol Caerfyrddin a fu'n dathlu'i phen-blwydd yn ddeg ar hugain yn ddiweddar. Hon yw ysgol farddol hynaf Cymru ac mae hi wedi bod yn gyfrwng i gannoedd ddysgu crefft cerdd dafod a thrafod hanfodion llenyddiaeth gydag amryw yn mynd yn eu blaenau i ennill prif wobrau llenyddol cenedlaethol ac i gyhoeddi'u gwaith. Un o aelodau gwreiddiol yr Ysgol yw Tudur Dylan Jones sy'n parhau yn ganolog i'w bywyd a'i gwaith ac aelod gweithgar arall yw Aled Evans. Ein dymuniadau da i'r Ysgol i'r dyfodol.

Ein llongyfarchiadau mawr i Thelma Evans ar ddathlu pen-blwydd arbennig (ffigur crwn) ar 1 Mai 2022 oddi wrth bob un ohonom yn y Priordy.



I GLOI, ein llongyfarchiadau i Lowri a Martin Waterworth ar ddod yn fam-gu a thad-cu.am y tro cyntaf. Ganed Lilwen Mai i Lisa-Beth a Craig Goodfellow yn Nailsworth, Swydd Gaerloyw ar 11 Ebrill 2022. Pob dymuniad da i'r teulu bach

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mehefin i'n
Gweinidog neu Alun Charles**

CYMDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Ann Griffiths ac Ifor Evans ar golli cefnder iddynt yn ddiweddar, sef André Jacob, Llandeilo. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com**

DALIER SYLW

**GOFALAETH Y PRIORDY, CAERFYRDDIN, CANA A
BANCYFELIN**

Mae'n Gweinidog newydd ddechrau ar ei hugeinfed flwyddyn yn weinidog ein Gofalaeth a hoffen ni gydnabod y garreg filltir hon yn ein hanes.

Fe welwch lythyr gyda'r Papur hwn yn nodi'r bwriad i gynnal Cwrdd Teulu ar gyfer yr Ofalaeth yn y Priordy ar fore Sul 22 Mai 2022 am 10 o'r gloch, gydag aelodau'r Ofalaeth yn cymryd rhan a chyfweliad bach yn digwydd rhwng Sulwyn Thomas a'n Gweinidog.

Yn dilyn hyn bwriedir cynnal Cinio i'r Ofalaeth yng Nghlwb y Cwins, Caerfyrddin am 1 o'r gloch erbyn 1.30. Pryd dau gwrs (Carferi a Phwdin) fydd hwn a'r gost yw £10.50 y pen. Y gost ar gyfer plant dan 11 yw £4.50 - 1 Cwrs a £5.50 - 2 gwrs.

Gobeithio'n fawr y gallwch gefnogi'r ddau ddigwyddiad. Mae enwau'r personau cyswllt ar gyfer y cinio yn y llythyr.

Hoffem wybod mor fuan â phosibl ond yn bendant erbyn Dydd Sul 15 Mai 2022, os ydych yn bwriadu dod i'r cinio, os gwelwch yn dda.,



Y SULIADUR



Mai	1	Bore	Ein Gweinidog	C
	8	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog Cwrdd Eglwys i ddilyn	
	15	Bore	Ein Gweinidog	
	22	Bore	Cwrdd yr Ofalaeth yn y Priordy. Dathlu ugeinfed flwyddyn ein Gweinidog yn ein Gofalaeth	
	29	Bore	Y Parchedig Dyfrig Rees	

Mehefin	5	Bore	Ein Gweinidog	C
	12	Bore P'nawn	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog Cwrdd Pregethu Heol Awst gyda'r Parchedig Ddr Alun Tudur am 3	
Sul y Tadau	19	Bore P'nawn	Pererindod yr Ofalaeth i Soar-y-Mynydd gyda'n Gweinidog. Manylion yn y Papur	
	26	Bore	Y Parchedig Denzil John	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu								
Mai					Mehefin			
.1	8	15	22	29	5	12	19	26
✓	CP	✓	✓	-	✓	CP	-	✓



**CWRDD EGLWYS
BORE SUL 8 MAI 2022 WEDI'R OEDFA**

**Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen**



DALIER SYLW
Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r
Suliadur mewn da byrd.

